Cyngor Cymuned Llaneilian (391)
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Mehefin 9, 2026 am 6.30yh yn Neuadd Bentref Penysarn.

Presennol: Alan Williams, Patsy Allen, Dafydd Griffiths, Carol Whitaker, Gordon Hayes, Ian Evans, John Griffiths, Dewi Jones, James Roe, Hefina Williams, Alun Roberts (Priffyrdd CSYM) Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Alison Williams, Derek Owen, Aled Morris Jones, Liz Wood

1 Croeso

Bu Alan Williams gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol, nodwyd bod y cyfarfod yn gynt na'r arfer er mwyn cael trafodaeth llawn ar faterion priffyrdd a bu diolch i Alun Roberts am fynychu'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Dim o'r newydd.

3 Materion Priffyrdd – Alun Roberts CSYM

3.1 Cyfyngiad 40mya ar yr A5025 – nodwyd pryder unwaith eto am gyflymder cerbydau ar hyd yr ffordd osgoi. Daethpwyd a llythyr at sylw'r Cyngor yn dilyn damwain diweddar ble bu i gerddwr ddisgyn wrth groesi'r lon a drwy lwc bod gyrrwr wedi ei gweld ac wedi gallu stopio'r traffig i'w helpu. Bu'r aelodau ofyn bod CSYM yn edrych eto ar ehangu'r cyfyngiad 40mya cyn belled a croesffordd Gadfa wrth gydnabod bod dau groesfan o fewn yr ardal sydd ar hyn o bryd yn 60mya. Cafwyd wybod gan Alun Roberts bod Aled Morris Jones eisioes mewn cyswllt a Huw Percy, pennaeth yr adran, a bod cyfarfod ar y gweill. Nododd byddai posib edrych eto ar ganllawiau cenedlaethol a'r newidiadau sydd wedi bod ers cyflwyno ardaloedd 20mya. Bu cydnabod bod angen edrych ar pob cais yn unigol. Cytuno cysylltu ag Aled Morris Jones am ddiweddariad wedi'r drafodaeth.

3.2 Parcio ar hyd Chapel St – nodwyd bod pryder a drwg deimlad am y nifer o gerbydau sydd wedi eu parcio ar y stryd, a bod cerbydau, gan gynnwys y bysiau, yn teithio yn llawer rhy gyflym drwy'r pentref. Bu tynnu sylw at broblemau sy'n gwynebu cerbydau sy'n trio troi i fewn/allan o Lon Lletroed a Lon Gors, a hefyd o'u tai eu hunain ble mae lle parcio preifat. Nodwyd bod gwaith i osod drychoedd gweledded ar y gweill ond nad oedd hyn o help pan mae cerbydau wedi parcio yn rhy agos i'r mydedfeydd. Trafodwyd posibilrwydd o linellau melyn a system unffordd, bu Alun Roberts gytuno ail-ymweld a'r syniad gan nodi bod hierarchaeth derfnyddwyr y ffordd wedi newid ac nad ceir oedd a blaenoriaeth. Bu cydnabod nad oedd ateb hawdd.

3.3 Sbwriel ar ben Lon Gors – bu tynnu sylw at waith clirio a sbwriel sydd ar ben Lon Gors a bu gofyn i CSYM drefnu bod yr ardal yn cael ei glirio a bod y trigolion cyfagos yn cael eu hatgoffa mai CSYM sydd berchen ar y tir yma ar ymyl y ffordd fawr. Trafodwyd y posibilrwydd o ddatblygu llwybr o Lon Gors hyd Lon Lletroed tu cefn i Chapel St. Byddai hyn yn galluogi trigolion i gael mynediad i'w gerddi a symud eu biniau oddi ar y palmant o flaen y ty.

3.4 Bu tynnu sylw at y beipen ddwr sy'n dargyfeirio dwr o safle'r Bedol i'r draen gyfagos. Deallwyd mai dim ond dros dro oedd y drefn yma, a bod Dwr Cymru wedi newid gofynnion y safle gan ofyn bod tanc storio dwr gwyneb er mwyn rhyddhau ychydig ar y tro fel nad oedd y system dwr gwyneb yn gorlifo. Nes bod y datblygiad wedi ei gwblhau, nid yw'r adran briffyrdd yn gallu ymyryd.

3.5 Mae tyllau yn y ffordd yn parhau i fod yn broblemus, nodwyd petai'r gwaith o'u llenwi yn cael ei wneud i safon y tro cyntaf na fyddai angen ail ymweld a'r un twll tro ar ol tro. Bu tynnu sylw penodol at y lon gyswllt rhwng yr A5025 a'r B5111, a hefyd y twll ger Bryn Dasi ar y lon tuag at Pengorffwysfa.

3.6 Trafodwyd y posibilrwydd o symud yr amserlen electroneg solar o gyffordd Gadfa i'r safle bws gyferbyn a'r siop. Nodwyd siom nad oedd y teclynau wedi bod yn llwyddiant yn y pentref,

mae'r un yn y sgwar wedi torri eto a'r un ger y Bedol wedi diflanu! Nodwyd siom nad oedd CSYM wedi darparu copiau papur o'r amserlennni pan nad oedd gwybodaeth eletroneg i'w gael ar y safleoedd. Mae nifer o ebyst wedi eu hafnon at CSYM yn tynnu sylw at problemau gyda' teclynnau. Cytuno byddai Alun Roberts yn trafod gyda Iwan Cadwaladr a byddai trefnu cyfarfod arall posib i drafod ymhellach.

3.7 Bu tynnu sylw Alun Roberts at bapur oedd wedi ei baratoi ai gyflwyno i CSYM ynglyn a phryderon am wasanaeth trafnidiaeth cyhoeddus. Bu Alun Roberts gadarnhau ei fod wedi derbyn copi o'r papur dan sylw ac y byddai yn trafod ymhellach gyda'r swyddogion perthnasol ac adrodd yn ol.

3.8 Bu tynnu sylw bod yr arwydd ar gyfer Lon yr Ysgol wedi diflannu ers misoedd yn dilyn gwaith ar y safle, mae CSYM wedi addo gosod un newydd ers tro ond heb wneud hynnu hyd yma. Bu tynnu sylw bod y bolard ger yr Hen Fecws ar yr un safle wedi cael difrod ac angen ei newid. Mae'r arwydd ffordd hefyd wedi cael difrod yn ddiweddar. Y clerc i anfon llun google yr union leoliad i Alun Roberts er gwybodaeth er mwyn gweld yn union beth sydd ei angen.

3.9 Nodwyd pryder am newid enwau hanesyddol tai ac eiddo o fewn y gymuned a bu gofyn am gadarnhad o'r broses ffurfiol. Nodwyd bod enwau eiddo yn cael eu newid o fewn ceisiadau cynllunio, neu bod dechrau defnyddio new o'r newydd. Nodwyd mai polisi priffyrdd oedd enwi tai bod yn fwy perthnasol i ddatblygiadau newydd yn hytrach nac ail-enwi eiddo presennol. Nid y newidiadau o'r fath o reidrwydd yn cael eu cofrestu. Bu'r aelodau nodi siom y diffyg cyd-gordio strategol a'r adrannau cynllunio a priffyrdd. Pwysleiswyd yr angen i didogelu enwau cyntefig, bu gytuno bod angen polisi clir i ddiogelu enwau a hanes ardal. Alun Roberts i wirio'r drefn ac adrodd yn ol.

3.10 Nodwyd bod y Cyngor Cymuned wedi anfon nifer o ebyst yn ymwneud a llwybrau cyhoeddus ond nad oedd ymateb hyd yma. Alun Roberts i wirio am ddiweddariadau.

3.11 Nodwyd bod cwynion yn parhau am flerwch y timau casglu gwastraff tra yn gwagio'r biniau ail-gylchu, gofynnwyd bod lluniau a cwyion penodol yn cael eu hafnon i fewn i'r adran wastraff. Nodwyd bod camerau ar y loriau i fonitro a diogelu'r gweithwyr. Bu cydnabod nad oedd pob amser yn hawdd mewn tywydd anffafriol.

3.12 Trafodwyd nifer o gerbydau sydd wedi eu parcio ers peth amser, a rhai eraill yn cael eu trin ar ochr y lon, cadarnhawyd bod yr adran amlgylcheddol yn ymwybodol ac y byddai Alun Roberts yn dilyn i fynu a'r swyddogion perthnasol.

3.13 Gofynnwyd oedd angen caniatad cynllunio i osod cysgodfannau bws yn y pentref, bu Alun Roberts gadarnhau nad oedd angen caniatad cynllunio, dim ond caniatad gan yr adran briffyrdd, byddai angen i unrhyw gontractiwr gael trwydded gan CSYM i weithio ar y palmant.

3.14 Trafodwyd y posibilrwydd o osod arwyddion flachio cyflymder o fewn y pentref. Bu Alun Roberts gadarnhau y byddai posib i CSYM eu gosod yn ddigost i'r Cyngor Cymuned.

3.15 Bu tynnu sylw at gais am linellau gwyn tu allan i eiddo yng nghanol y pentref. Gofynnwyd pam fod disgwyl i drigolion dalu am y gwaith pan fod y cais o ganlyniad i ddiffyg parcio ar y stryd a trafferthion troi i fewn/allan o'u eiddo. Alun Roberts i edrych ar yr achos penodol gyda'r aelodau lleol.

3.16 Cafwyd gadarnhad gan Alun Roberts y byddai CSYM yn cysylltu ag unrhyw dirfeddianwyr petai cloddiau/llwyni yn gordyfu dros y palmant neu i fewn i'r lon.

Bu diloch i Alun Roberts am ei amser a bu iddo adael am 7.30yh.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig Gordon Hayes, eilio Dafydd Griffiths.

5 Materion yn Codi

Ni fu materion yn codi nad oeddent wedi eu cynnwys ar yr agenda.

6 Diweddariadau

6.1 Caeau Chwarae – dim diweddariadau i'w cofnodi.

6.2 Llithrfa – nid yw'r clerc wedi derbyn goriadau gan CSYM fyth. Nid yw'r bwis cyflymder wedi eu gosod na'r gabions wedi eu symud ar waelod y llithrfa. Mae'r postyn wedi diflanu. Nodwyd siom nad oedd diweddariadau na gweithredu gan CSYM. Bu cydnabod rhwystredigaeth y sawl sydd wedi cofrestru a thalu am goriad tra nad yw'r cynllun yn weithredol.

6.3 Mynwentydd – ni fu diweddariad gan y Bedyddwyr ynglyn a chapel a mynwent Carmel, cadarnhawyd bod y clerc wedi cysylltu a bod disgwyl dyddiad am gyfarfod i drafod ymhellach.

Nodwyd bod y glaswellt ym mynwent Llaneilian yn hir mewn mannau, a bod pryder am nadroedd mewn lleodd distewach. Cafwyd nifer yn canmol y gardd goffa. Nodwyd bod angen peth gwaith twtio ar feddi teulu TMI.

6.4 Polisi a Chyllid – nodwyd bod angen adolygu rhai o bolisiau'r Cyngor.

6.5 Cronfa TMI – nodwyd bod cyfarfod y pwyllgor wedi ei ohurio heno drwy bod y Cyngor wedi cwrdd ag Alun Roberts. Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn fuan.

6.6 Llwybrau – nodwyd nad oedd diweddariad hyd yma gan CSYM yn dilyn cwynion am y grisiau tuag at Porth Gwichiad. Nid oes diweddriad chwaith am y goeden syddd wedi disgyn ar y llwybr heibio Clustach. Mae'r goeden oedd wedi disgyn ar draws llwybr Lon Gilfach wedi cael sylw CSYM. Nid oes ymateb gan Aurora Hood ynglyn a hyfforddiant ar gyfer tywys teithiau cerdded hyd yma.

Trafodwyd llwybr Cadi Rondol mewn peth manylder, nodwyd bod y tirfeddianwr ar hyn o bryd yn gweithio yn yr ardal i wella a gosod traen newydd a lefelu ardaloedd eraill. Nodwyd bod y tirfeddianwr wedi cytuno ffensio'r llwybr yn y gorffennol a bod dodrefn wedi eu darparu gan CSYM i'r perwyl. Gobeithir bydd Arwel Evans yn gallu ymweld a thrafod ymhellach.

6.7 Pwyllgorau Allanol – cafwyd adroddiad gan Patsy Allen yn dilyn cyfarfod Fforwm Cyswllt Mon. Bu cyflwyniad gan swyddogion CSYM am eu targedau Net Sero. Bu gwybodaeth hefyd gan y Pwyllgor Safonnau am newidiadau i'r Cod Ymddygiad a bu pwysleisio pwysigrwydd yr Adroddiad Blynyddol.

Cafwyd wybod mai dim ond 22 cyngor oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar gynghorau tref a Cymuned, mae disgwyl adroddiad drafft ym mis Medi.

Cafwyd wybod bod y gwaith ar ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn parhau ond nad oedd cynydd yn unol a'r amserlen gwreiddiol.

Trafodwyd dathliadau Pont Borth yn 200 mlwydd oed, a'r trafferthion diweddar gyda'r strwythr a'r effaith ar drafnidiaeth cyhoeddus. Trafodwyd opsiynnau posib ar gyfer gwell rheolaeth traffig ar draws y ddau bont. Cytuno bod angen mwy o gydweithio rhwng Mon a Gwynedd i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i weithredu.

6.8 Bioamrywiaeth / Amgylcheddol – nodwyd bod cynrychiolaeth o'r Cyngor wedi bod ar daith gerdded yn y fro gyda disgyblion yr ysgol gynradd. Mae teithiau cerdded cymunedol yn parhau tra bo'r tywydd yn ffafriol.

Nodwyd pryder bod derbyn nifer o gwynion am goed wedi eu torri a gwaith cliro ger y llwybr arfordir tua Bryn Fuches (i gyfeiriad hen fynwent Llanwenllwyfo). Y clerc i dynnnu sylw CSYM.

7 Cynllunio

Cadarnhawyd bod unrhyw ddogfennau cynllunio wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost.

7.1 Ceisiadau – ni fu ceisiadau i'w ystyried

7.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –
FPL/2025/307 Llys Dulas – wedi ei ganiatau, nodwyd siom am ddiffyg amodau.

7.3 Unrhyw fater cynllunio arall – nodwyd bod Pant y Clociau yn parhau i gynnig llety gwyliau. Nodwyd hefd bod gwaith ar y gweill ar y safle i lenwi'r mynediad oedd wedi ei greu i'r lon fawr.

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol
£1166.51 Cyflog Clerc a thal mynwent Bosra
£300.00 IG Jones (gwasanaeth cyflog 25/26)
£1800.35 S Williams (llwybrau)
£746.07 S Williams (torri gwair)

8.2 Ceisiadau am Arian – daw dau gais am gefnogaeth ariannol –
Daw llythyr o ddiolch gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Penysarn yn dilyn cyfraniad tuag at eu costau i gystadlu yn yr Eisteddfod.

Bu'r clerc dynnu sylw at cyfraniad tuag at ddathliadau diwedd cyfnod disgyblion blwyddyn chwech. Bu clustnodi £100 tra yn gosod y gyllideb. Nid oes cais ffurfiol wedi ei dderbyn hyd yma.

8.3 Archwiliad – bu gadarnhau bod archwilaid 2024/25 bellach wedi ei gwblhau a bu cydnabod adroddiad yr archwiliwr allannol. Nodwyd bod yr archwilwyr wedi gofyn nifer o gwestiynnau yn ystod yr achwiliad, a bod y clerc wedi ymateb iddynt yn ol y gofyn. Ni fu holi am y pwyntiau sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad a bu'r clerc ddarparu esboniad i'w sawl oedd yn bresennol. Gofynnwyd a fyddai'r archwiliwr mewnol yn darparu ymateb ffurfiol i'r hyn oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad terfynnol.

9 Prosiectau Cyfalaf

Trafodwyd y syniadau am brosiectau cyfalaf a'r prisiau ynghlwm. Cadarnhawyd bod CSYM wedi clustnodi £14,443 i ardal Llaneilian. Cytuno byddai cyflwyno'r prosiectau canlynol, a gofyn i CSYM a fyddent yn ystyried dyrannu tanwariant o ardaloedd eraill petai cyfle i gwblhau mwy o brosiectau yn yr ardal.

Perllan – prydles a chostau cyfreithiol £4000
Safle Bws Pengorffwysfa – trin y strwythr £2000
Meinciau tu allan i'r Neuadd Bentref £1000
Byrddau Picnic a Meinciau (perllan) £2000
Gwynebu llwybr heibio Maes Llwyfo £1000
Cysgodfanau Bws Penysarn – prynnu a gosod £6000

Bydd y Cyngor Cymuned yn cyfrannu tuag at y balans fel bo angen. Bu cytuno byddai defnyddio arian Cronfa TMI at yr achos.

10 Iechyd a Diogelwch

Bu tynnu sylw at ddifrod i'r ffens ger y mastiau yn Nebo. Bu Patsy Allen gadarnhau ei bod wedi cysylltu a'r heddlu a'r cwmni sy'n gyfrifol am y safle i dynnu sylw. Mae pryder i blant ac anifeiliaid gael i fewn i'r safle.

11 Adroddiad Blynyddol

Mae gwaith ar gychwyn ar yr adroddiad blynyddol, bu atgoffa aelodau i anfon lluniau o weithgareddau dros y flwyddyn diwethaf i Alan Williams er mwyn eu cynnwys.

12 **Gohebiaeth**

Cadarnhawyd bod eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon ir aelodau drwy ebost wrth eu derbyn. Dosbarthwyd copiau o adroddiad blynyddol Mon CF i'r sawl oedd yn bresennol.

13 **Unrhyw Fater ar gyfer Agenda'r Cyfarfod Nesaf**

Aelodau i gysylltu a'r clerc mewn da bryd os am gynnwys eitemau ar yr agenda.

14 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Gorffennaf 14, 2026

Bu'r cyfarfod orffen am 9.30yh o'r gloch

Alan Williams,
Cyngor Cymuned Llaneilian
CET06/2026